



# Adroddiad Arolygu ar

**Gartref Gofal Glyn Nest**

**Heol Ebeneser  
Castell Newydd Emlyn  
SA38 9BW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cyhoeddi**

**Dydd Iau, 08 Mehefin 2017**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.***

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

## **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Mae Cartref Gofal Glyn Nest wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu llety a gofal personol i hyd at dri deg o bobl dros chwe deg pump oed, gan gynnwys hyd at ddeuddeg o bobl sydd angen gofal dementia o fewn y tri deg o leoedd. Pan gynhaliwyd yr arolygiad hwn, roedd saith ar hugain o bobl yn byw yng Nglyn Nest.

Darparwr y gwasanaeth yw Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru Cyfyngedig a chaiff y gwasanaeth ei weinyddu gan Gwmni Ymddiriedolaeth Glyn Nest. Y rheolwr cofrestredig yw Mrs Jayne Evans, sydd â chyfrifoldeb beunyddiol am redeg y cartref.

## **Crynodeb o'n canfyddiadau**

### **1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth da ac yn cael eu cynorthwyo gan staff gofalgar, proffesiynol sydd â dealltwriaeth dda o'u hanghenion. Gwelsom fod pobl yn mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae hyn yn digwydd yn y cartref ac yn y gymuned ehangach, gyda chefnogaeth staff sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac sy'n deall eu hanghenion unigol.

Roedd y rheolwyr a'r staff yn broffesiynol, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael eu hysgogi a'u clodfori gan berthnasau a gweithwyr proffesiynol allanol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod digon o fanylder mewn cynlluniau gofal.

### **2. Gwelliannau**

Mae safon y siartiau meddyginiaeth argraffedig a ddarperir gan y fferylllydd wedi gwella bellach.

Mae'r manylion a gofnodir mewn cofnodion gofal wedi gwella, ond mae angen gwneud mwy o waith ar hyn.

### **3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump yr adroddiad hwn yn nodi argymhellion i wella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Iechyd a Diogelwch: Trefnu man mwy priodol i wefru a storio sgwter trydanol. Ystyried lleoliad mwy hygyrch er mwyn cael mynediad hawdd ato pe bai tân ar gyfer pob cynllun gadael personol.

- Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth: Cyflwyno cynlluniau mwy penodol o ran rheoli poen a meddyginiaeth.
- Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth: Darparu gwybodaeth fwy manwl mewn cynlluniau gofal ac ystyried datblygu proffiliau un dudalen ar gyfer pawb sy'n byw yn y cartref.
- Cadw Cofnodion: Sicrhau bod penderfyniadau er pennaf les yn cael eu cofnodi'n glir mewn nodiadau.

# 1. Lles

## Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cynnes a hapus ac maen nhw'n teimlo'u bod yn perthyn i'r lle. Gall pobl gael mynediad at amrywiaeth eang o weithgareddau o'u dewis ac maen nhw'n ymwneud â'u cymunedau mewn modd gweithredol. Gall pobl fod yn dawel eu meddwl fod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn y cartref yn canolbwyntio ar gynnal eu hiechyd a'u lles.

## Ein canfyddiadau

Mae pobl yn cael budd o fyw mewn cartref croesawgar, cartrefol wedi'i bersonoli. Estynnwyd gwahoddiad i ni weld nifer o'r ystafelloedd gwely. Gwelsom eu bod wedi'u haddurno at chwaeth yr unigolyn. Roedd digon o ddodrefn yn yr ystafelloedd ac roeddent yn cynnwys lluniau teulu ac amrywiaeth o gofrodion personol. Gwnaeth un unigolyn ddangos ei gasgliad o lyfrau i ni a dweud ei fod "*yn dwli ar lyfrau ac yn arfer bod yn llyfrgellydd*". Roedd yn amlwg yn falch o'r lle yr oedd yn byw. Trwy gydol yr arolygiad, gwelsom nifer o berthnasau yn ymweld â'r cartref. Roedden nhw'n cael croeso bob amser. Dywedodd un perthynas wrthym, "*mae'n hyfryd yma. Nid yw'n teimlo fel cartref gofal*". Dywedodd un arall, "*mae'n rhoi tawelwch meddwl i mi*" ac mae'n "*gartref rhagorol sy'n wirioneddol yn teimlo fel cartref. Rydym bob amser yn cael croeso cynnes*".

Gwelsom fod nifer fawr o'r staff yn gallu siarad â siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Dywedodd perthynas wrthym, "*Rydym yn hapus dros ben ein bod wedi dod o hyd i gartref lle y siaredir Cymraeg yn naturiol*". Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y cartref, "*Allwn i fyth ddod o hyd i gartref gwell*" a'i fod "*yn anhygoel*". Clywsom y staff yn holi cwestiynau ynghylch gorffennol yr unigolyn. Roedd hyn yn cael ei wneud mewn modd cyfeillgar a oedd yn dangos diddordeb gwirioneddol. Felly, mae'r bobl yn profi cynhesrwydd a synnwyr o berthyn.

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd cymdeithasol da ac maen nhw'n gallu cael heddwch a thawelwch os ydynt yn dymuno. Gwelsom fod nifer o bobl wedi gwneud ffrindiau yn y cartref. Gwyddom hyn oherwydd gwelsom yr un bobl yn eistedd gyda'i gilydd droeon. Byddent yn eistedd gyda'i gilydd i fwyta'u cinio, i gael lluniaeth ysgafn ac i wyllo'r teledu. Dywedasant wrthym eu bod yn mwynhau'r elfen gymdeithasol o fyw yn y cartref. Roedd unigolyn arall yn mwynhau amser tawel i fyfyrto. Gwelwyd ef yn defnyddio man tawel yr heulfan (parlwrl haul??). Dywedodd wrthym ei fod yn hoffi'r man tawel i ysgrifennu llythyrau at aelodau o'i deulu. Dywedodd rhywun arall wrthym ei fod yn hoffi ei le ei hun. Gwelsom ei fod yn gysurus yn ei ystafell ei hun yn gwyllo'r snwcer ar y teledu. Gwrandewir ar bobl, felly, eir ati i ganfod eu dewisiadau a chaiff y rhain eu parchu.

Caiff pobl eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref ac yn y gymuned ehangach. Roedd y cartref yn cyflogi cydlynedd gweithgareddau profiadol. Roedd yn frwd dros wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl. Dywedodd wrthym ei fod yn rhoi pwyslais mawr ar ryngweithiadau bob dydd, yn ogystal â gweithgareddau a oedd yn golygu mwy o drefnu. Dywedodd y staff gofal wrthym fod cyflwyno cydlynedd gweithgareddau wedi bod yn gam cadarnhaol. Roedden nhw hefyd yn teimlo'n gyfrifol dros sicrhau bod pobl yn rhyngweithio'n rheolaidd. Dangoswyd hyn drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom raglen fisol fanwl o weithgareddau mewnol ac allanol. Roedd y gweithgareddau mewnol yn cynnwys celf a chrefft, coginio cacennau, ioga cadair ac ymweliad gan hanesydd lleol. Roedd y gweithgareddau allanol yn cynnwys teithiau i lan-y-môr, ymweliad â'r ganolfan bywyd gwyllt leol a theithiau allan yn rheolaidd i gael pysgod a sglodion. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom bobl yn cael tyliniad llaw. Roedd pob gweithgaredd yn cael ei drafod â phobl yn unigol neu mewn cyfarfodydd cartref rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym eu bod ar fin cwblhau taith gerdded nodedig. Dywedasant y byddai'r holl arian a godwyd yn cael ei roi i'r grŵp preswylwyr i dalu am weithgareddau i ddod. Gwelsom fod y cartref yn mynd ati mewn modd gweithredol i annog pobl i ymhél â'r gymuned ehangach. Gwyddom hyn oherwydd roeddent yn ymweld â'r ffair haf flynyddol ac roedd yr ysgol gynradd leol yn ymweld â nhw'n gyson. Gwelsom fod penblwyddi pobl a oedd yn byw yn y cartref yn cael eu dathlu'n rheolaidd. Dywedwyd wrthym y gallai hwn fod yn ddathliad cymunedol os oedd yr unigolyn yn dymuno. Yn ogystal â hyn, gwelwyd cylchlythyr chwarterol. Roedd hwn yn un proffesiynol ac yn cynnwys amrywiaeth eang o bynciau. Roedd y rhifyn a roddwyd i ni yn cynnwys gweithgareddau, dathliadau pen-blwydd pobl a'u perthnasau, traddodiadau'r Pasg ac erthygl gan Gadeirydd Bwrdd Rheoli Glyn Nest. Felly, caiff pobl eu hysgogi ac mae ganddynt amrywiaeth eang o bethau i edrych ymlaen atynt.

Roedd pobl yn cael budd o ddietau amrywiol a rhoddwyd sylw i hydradu. Gwelsom fwydlenni amrywiol, iach a oedd yn cynnig digonedd o ddewis. Gwelsom bobl yn mwynhau brechwast a chinio o afu a winwns wedi'i goginio'n ffres. Gwelsom fod y fwydlen wedi'i hysgrifennu ar fwrdd yn y lle bwyta. Roedd y Bwrdd hefyd yn hysbysu'r bobl o ba staff oedd ar gael y diwrnod hwnnw. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y cartref wrthym fod y *"bwyd yn rhagorol"*. Dywedodd perthynas wrthym fod *"y pryddau bwyd yn dda ac wedi'u cyflwyno'n dda"*. Gwelsom fod gan bobl ddewis, ond eu bod yn cael eu hannog i eistedd wrth y byrddau bwyta i fwyta'u cinio fel rhan o ryngweithiad cymdeithasol. Gwelsom y staff gofal ac arlwyo yn rhoi cymorth i bobl pan oedd angen. Gwelsom aelod o staff yn cynnig paned o de mewn cwpan llai o faint i rywun ac yn gofyn a fyddai'n hoffi rhoi cynnig ar bwddin. Roedd gan y gegin sgôr Lefel 5 (da iawn) a ddyfarnwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Dywedodd y bobl a oedd yn byw yn y cartref a'u perthnasau wrthym fod dewisiadau'r fwydlen yn hyblyg. Gwelwyd hyn wrth gwrdd â phobl a oedd yn byw yn y cartref. Felly, roedd gan bobl ddewis eang o fwyd a lluniaeth a oedd yn cael eu darparu gan staff gwasanaethgar.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Caiff pobl eu cefnogi gan staff cymwys sydd â dealltwriaeth dda o'u hanghenion unigol ac sy'n eu trin ag urddas a pharch. Mae'r staff yn ofalgar, yn broffesiynol ac yn parhau i sicrhau bod gan bobl fywyd o ansawdd da. Gall pobl fod yn dawel eu meddwl fod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn y cartref yn canolbwyntio ar gynnal eu hiechyd a'u lles. Fodd bynnag, mae angen mwy o fanylion yn y cynlluniau gofal.

### Ein canfyddiadau

Gall pobl fod yn hyderus fod gan bob aelod o staff y sgiliau a'r profiad priodol a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda i wneud eu rolau penodol. Gwnaethom archwilio tri chofnod recriwtio cyflogai; cadarnhaodd pob un bod yr holl wiriadau sy'n ofynnol i ni eu cael mewn lle wedi'u prosesu. Canfuom fod ffeiliau personél y staff yn drefnus iawn ac yn cael eu cynnal i safon uchel. Nodwyd fod goruchwyliaethau staff yn gyson ac yn cael eu cynnal bob dau fis. Gwelsom fod unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn cyfarfodydd goruchwylio yn cael eu trafod a'u dilyn yn y cyfarfod nesaf. Yn ogystal â hyn, gwelsom fod y staff i gyd yn cael eu harfarnu bob blwyddyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Dywedodd un aelod o staff, *"Gallwn fynd at X gydag unrhyw broblemau"*. Dywedodd un arall, *"Mae'n amgylchedd hyfryd. Mae'n hawdd mynd at y rheolwr"*.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu trefnu bob dau fis. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cyfarfod yn rhoi cyfle i ddathlu llwyddiant. Dywedodd aelod o staff wrthym, *"rydym yn gweithio'n dda gyda'n gilydd fel tîm"*. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol oedd yn ymweld, *"mae'n lle hyfryd i ymweld ag ef. Maen nhw mor ddidwyll"*. Roedd y cartref hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar hyfforddi a datblygu staff. Gwelsom fatrics hyfforddi a oedd yn amlygu amrywiaeth eang o hyfforddiant. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant craidd megis iechyd a diogelwch, meddyginiaeth a chodi a chario, yn ogystal â hyfforddiant mwy penodol megis gofal dementia a threfniadau diogelu rhag colli rhyddid. Caiff pobl eu cefnogi gan staff sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i effeithio'n gadarnhaol ar eu bywydau.

Caiff pobl eu cefnogi gan staff sy'n eu deall nhw a'u hanghenion iechyd. Gall pobl fod yn dawel eu meddwl bod y feddyginiaeth yn cael ei gweinyddu a'i chofnodi'n ddiogel yn y cartref. Gwyddom hyn oherwydd gwelsom fod Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth (MAR) wedi'u llenwi'n gywir heb unrhyw fylchau mewn llofnodion a defnyddiwyd codau pan oedd yn briodol i egluro pam na chafodd meddyginiaeth ei gweinyddu. Roedd yr ystafell feddyginiaeth wedi'i rheoli'n dda ac roedd y staff yn cyflawni'r gwiriadau tymheredd

perthnasol bob dydd. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant meddyginiaeth ac yn cael gwiriadau cymhwysedd rheolaidd gan staff uwch wedi hyn. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw gynllun gofal penodol o ran meddyginiaeth. Argymhellwn fod cynlluniau meddyginiaeth yn cael eu cyflwyno. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i staff na nodwyd yn y cofnodion gweinyddu meddyginiaeth. Yn ogystal â hyn, argymhellwn fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno cynlluniau rheoli poen i bobl sydd â llai o allu i gyfathrebu. Mae hyn yn dangos bod pobl yn cael eu cefnogi i fod mor ddiogel ac iach â phosibl, ond bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i reoli poen.

Mae pobl yn cael gofal a chymorth rhagweithiol, lle y caiff eu hanghenion a'u dewisiadau unigol eu deall a'u rhagweld. Gwnaethom edrych ar gofnodion pedwar unigolyn a oedd yn byw yn y cartref. Canfuom fod y wybodaeth gyn-asesu a derbyn yn fanwl ac wedi'i chofnodi'n glir. Gwelsom fod y gwaith papur yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn adlewyrchu nodau a dyheadau'r unigolyn. Fodd bynnag, argymhellwn fod mwy o fanylion yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gofal. Byddai hyn yn darparu canllaw mwy clir i staff. Yn ogystal â hyn, argymhellwn fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu proffiliau un tudalen o bobl. Roedd adolygiadau yn cael eu cynnal ar adegau penodol. Byddai'n dda o beth pe bai'r rhain yn gallu sicrhau bod barn yr unigolyn a/neu aelod o'r teulu yn cael ei gofnodi'n ffurfiol. Gwelsom ddogfennau ar asesu risg. Roedd y rhain yn fanwl ac yn cynnwys naratif o risgiau posibl gweithgareddau a sut y gellid rheoli'r rhain. Gwelsom fod gan nifer o bobl offeryn sgrinio diffyg maethiad cyffredinol (MUST) ar waith i fonitro eu maeth. Gwelsom fod angen adolygu dau unigolyn gan fod yr adolygiad braidd yn hwyr. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu ar unwaith. Gwelsom wybodaeth fanwl am ddigwyddiadau a newidiadau a gyfathrebwyd trwy lyfr digwyddiadau a chyfathrebu â'r staff.

Gwelsom fod damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n glir a chamau yn cael eu cymryd. Yn ogystal â hyn, roedd yr awdurdodiadau sylfaenol ar gyfer trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DoLS) wedi'u trefnu'n dda. Fodd bynnag, argymhellwn fod penderfyniadau er pennaf les yn cael eu cofnodi'n glir mewn nodiadau achos. Trwy wneud hyn, gellid sicrhau eu bod yn cyflawni buddion pennaf yr unigolion trwy gofnodi barn y bobl briodol. Felly, mae'r bobl yn cael gofal priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



### 3. Amgylchedd

#### Crynodeb

Canfuom fod Cartref Gofal Glyn Nest yn darparu amgylchedd croesawgar, cartrefol a gaiff ei gynnal a chadw'n dda. Gall pobl fod yn dawel eu meddwl eu bod yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag risg gan staff priodol sydd wedi'u hyfforddi'n dda mewn gweithdrefnau rheoli risg ac iechyd a diogelwch.

#### Ein canfyddiadau

Caiff pobl eu cefnogi mewn amgylchedd diogel, saff, cynnes sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y safle'n ddiogel rhag mynediad heb ei awdurdodi. Roedd yn rhaid i ni ganu cloch ddrws i gael mynediad, ac wedyn gofynnwyd i ni lofnodi ein henw a'r amser cyrraedd yn y llyfr ymwelwyr. Gwelsom dystysgrifau cofrestru AGGCC, y dystysgrif atebolrwydd cyflogwr a'r dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl wedi'u harddangos ym mhen blaen yr eiddo. Yn ogystal â hyn, gwelsom hysbysfwrdd a oedd yn dangos copïau o'r weithdrefn gwyno, y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth. Gwelsom fod safonau da yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r cartref.

Gwelwyd tystiolaeth o waith cynnal a chadw ac ailwampio parhaus. Gwelsom fod nifer o fannau cymunedol wedi'u haddurno yn ddiweddar. Roedd y rhain yn olau, wedi'u hawyru'n dda ac yn rhoi hwb i'r galon. Roedd y cartref yn cyflogi swyddog cynnal a chadw ar gontract rhan-amser. Roedd hwn yn y cartref ar adeg yr arolygiad. Dywedodd wrthym ei fod yn archwilio'r lolfa flaen yn barod i'w hail-beintio. Gwelsom lyfr adroddiadau gwaith cynnal a chadw. Roedd hwn yn cael ei ddefnyddio gan staff i adrodd diffygion cynnal a chadw ac yn cael ei gadarnhau gan y swyddog cynnal a chadw wedi iddo gwblhau'r gwaith. Gwelsom staff domestig yn cyflawni eu dyletswyddau trwy gydol ein harolygiad. Dywedasant wrthym ei bod, *"yn dwli gwneud y gwaith"* a, *"Rwyf eisiau gwneud fy ngorau glas i ofalu am y preswylwyr"*.

Gwelsom fod y cartref a'i fannau allanol yn lân, yn ddymunol ac yn hawdd eu cyrraedd. Hynny yw, ar wahân i'r ystafell ymolchi i fyny'r grisiau a oedd yn llawn cymhorthion symudedd ac annibendod. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi trefnu i gael yr holl eitemau wedi'u symud o'r ystafell erbyn diwedd ein harolygiad. Gwelsom fynediad da ym mhob rhan o'r adeilad. Roedd hyn yn galluogi pobl i gael mynediad diogel i'r ardd gan ddefnyddio rampiau. Gwelsom ardd synhwyrâu gaeedig. Roedd hon yn cynnwys glaswellt artiffisial, lleoedd eistedd ac amrywiaeth eang o blanhigion. Gwelsom ddyn a oedd yn byw yn y cartref yn garddio yn yr ardal hon. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ganddo ddiddordeb brwd mewn garddio ac yn mwynhau twtio'r ardal bob dydd. Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n sicrhau eu bod mor annibynnol â phosibl.

Mae risgiau diangen i bobl wedi'u hadnabod ac wedi'u dileu, cyn belled â bod hynny'n bosibl. Canfuom bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch manwl a oedd yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd. Roedd y mudiad yn defnyddio ymgynghorydd allanol er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol. Roedd profion gwasanaethau a chyfarpar yn cael eu diweddarau. Roedd tystiolaeth megis cofnodion profi cyfarpar trydanol cludadwy diweddar a thystysgrifau cynnal a chadw cyfarpar codi yn cefnogi ein canfyddiadau. Fodd bynnag, gwelsom sgwter trydanol wedi'i storio yn yr ystafell golchi dillad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym eu bod wrthi'n ystyried lleoliad mwy priodol.

Gwelsom systemau gwaith diogel o ran diogelwch tân. Dangosodd cofnodion fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant mewn diogelwch tân. Roedd pwyntiau ymgynnull wedi'u nodi, gweithdrefn gadael ar frys a phroffion rheolaidd yn cael eu cynnal. Cadwyd cynllun gadael personol ym mhob ffeil. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth fanwl am allu'r unigolyn i adael y safle pe bai tân. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai ffeil ganolog gael ei chadw mewn cabinet anhylosg dan glo ar bwys mynediad y cartref. Byddai hyn yn rhoi mynediad hawdd i'r staff cyfrifol a'r gwasanaeth tân. Felly, gall y bobl fod yn hyderus bod yr holl gamau wedi'u cymryd i'w diogelu rhag risg.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod gwelliant parhaus a set gref o werthoedd wrth wraidd y gwasanaeth. Mae'r rheolwr cofrestredig yn ymroi llawer o amser i ddarparu cymorth i'r staff ac i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r bobl yn gweld atebolrwydd gweledol a thîm gyda gwerthoedd a rennir, sydd eisiau gwella bywydau'r bobl.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn glir o ran beth mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu a sut mae'n ei ddarparu. Gwelsom ddatganiad manwl o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth. Maen nhw'n disgrifio gwerthoedd ac athroniaeth y gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys parch, urddas, preifatrwydd, cynnal safonau uchel o ofal a phroffesiynoldeb. Gwelsom staff yn gweithio mewn ffordd sy'n dangos y gwerthoedd hyn. Gwelsom fod ymgynghori'n digwydd â'r bobl ynghylch sut yr oedd y cartref yn cael ei redeg. Gwelwyd tystiolaeth o hyn trwy arsylwadau ar adeg yr arolygiad a chofnodion cyfarfodydd y preswylwyr. Canfuom fod pobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sy'n gwbl ymrwymedig i gynnal ei werthoedd.

Caiff pobl eu trin â pharch. Roedd awyrgylch hamddenol a chadarnhaol yn y cartref. Roedd hi'n amlwg fod y tîm rheoli yn annog polisi drws agored. Gwelsom y rheolwr cofrestredig yn ymhel â'r staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref trwy gydol yr arolygiad. Gwelsom nad oeddent ar ruther nac ar frys ar unrhyw adeg ac roeddent yn hawdd siarad â nhw ac yn broffesiynol. Gwnaethom siarad â nifer o'r staff a ddarparodd sylwadau cadarnhaol ynghylch y rheolwyr cofrestredig a'u dirprwyon. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, "*Maen nhw'n dîm rheoli da iawn*" ac yn "*geflogol iawn*". Roedd aelod arall o'r staff yn credu bod "*diwylliant cadarnhaol*" yn y cartref. Dywedodd gweithiwr ieuchyd proffesiynol wrthym "*Nid oes gennyf unrhyw bryderon. Mae'n gartref hyfryd*". Caiff y bobl, felly, eu cefnogi gan staff gofalgarg sy'n eu trin yn dda.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan wasanaeth sy'n monitro ansawdd mewn modd effeithiol ac yn gwella'r ansawdd yn barhaus. Gwelsom fod ymrwymiad cryf i wella'n barhaus, ac roedd ansawdd y gwasanaeth yn cael ei asesu'n rheolaidd. Gwelsom adroddiadau a oedd yn cadarnhau bod ymweliadau yn cael eu cynnal yn chwarterol gan yr unigolyn cyfrifol. Roedd y rhain yn fanwl ac yn ymdrin â meysydd amrywiol. Roedden nhw'n sicrhau bod ansawdd bywyd pobl yn cael ei gynnal. Cawsom ein darparu â gwerthusiad blynyddol y gwasanaeth ar gyfer 2016. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am uwchraddio'r amgylchedd, canmoliaethau a phryderon a hyfforddiant staff. Gwelsom dystiolaeth fod ymgynghori'n digwydd â'r bobl sy'n byw yn y cartref, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol hefyd ynghylch ansawdd y gofal, sy'n nodwedd allweddol o wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys, "*Anfonwn ein cariad a'n diolchgarwch diffuant i chi i gyd*" a

*“Llongyfarchiadau i chi ar gwblhad yr ardd synhwyrâu”*. Felly, ceir ymrwymiad cryf i wella'r gwasanaeth yn barhaus er budd pobl, a gwelwyd tystiolaeth o hyn.

## **5. Gwelliannau mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn**

### **5.1 Meysydd lle gwelwyd diffyg cydymffurfio mewn arolygiadau blaenorol**

Dim

### **5.2 Meysydd lle gwelwyd diffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn**

Dim

### **5.3 Argymhellion i wella**

Argymhellwn y dylid:

- Trefnu lle mwy priodol i wefru a storio sgwter trydanol.
- Ystyried lleoliad mwy hygyrch ar gyfer pob cynllun gadael personol er mwyn cael mynediad hawdd ato pe bai tân.
- Ystyried datblygu proffiliau un dudalen i bawb sy'n byw yn y cartref.
- Cyflwyno cynlluniau rheoli poen mwy penodol i bobl sydd â gallu cyfyngedig i gyfathrebu.
- Darparu gwybodaeth fwy manwl mewn cynlluniau gofal.
- Sicrhau bod penderfyniadau er pennaf les yn cael eu cofnodi'n glir (rhesymau pam/pwy oedd yn rhan o'r penderfyniad).
- Ystyried cyflwyno cynllun gofal penodol o ran meddyginiaeth.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn, dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Cynhaliwyd yr arolygiad dros ddau ddiwrnod, ar 19 a 20 Ebrill rhwng 9.30am a 4.00pm.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae'r offeryn SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi a chofnodi'r gofal er mwyn ein helpu ni i ddeall profiad pobl na ellir cyfathrebu â ni.
- Siaradwyd â'r rheolwr, y cydlynnydd gweithgareddau a'r staff gofal ac arlwyo;
- Siaradwyd â'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u perthnasau;
- Cawsom adborth gan weithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd proffesiynol;
- Edrychwyd ar y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Cawsom ein tywys o amgylch y cartref a'r gerddi amgylchynnol;
- Edrychwyd ar ffeiliau tri aelod o staff (gan gynnwys cofnodion recriwtio ac ymsefydlu);
- Edrychwyd ar ffeil pedwar unigolyn sy'n byw yn y cartref (gan gynnwys cynlluniau gofal/cymorth, dogfennau asesu risg a siartiau gweinyddu meddyginiaeth) ac
- Edrychwyd ar amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau;

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan [www.cssiw.org.uk](http://www.cssiw.org.uk)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

<b>Math o ofal a ddarperir</b>	<b>Cartref Gofal i Oedolion – Hŷn</b>
<b>Unigolyn Cofrestredig</b>	<b>Cwmni Ymddiriedolaeth Glyn Nest Cyf.</b>
<b>Rheolwr/Rheolwyr Cofrestredig</b>	<b>Catherine Evans</b>
<b>Mwyafrif lleoedd cofrestredig</b>	<b>30</b>
<b>Dyddiad arolygiad AGGCC blaenorol</b>	<b>22/06/2017</b>
<b>Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu hwn</b>	<b>19 a 20 Ebrill 2017</b>
<b>Iaith weithredol y gwasanaeth</b>	<b>y ddwy iaith</b>
<b>A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig rhagweithiol y Gymraeg?</b>	<b>Ydy</b>
<b>Gwybodaeth Ychwanegol:</b>	